William Walters, 1845–1907

Sylfaenydd Scripture Gift Mission International

Roedd William Walters wedi ei argyhoeddi bod angen i bobl gyffredin ddarllen y Beibl. Sefydlodd y Scripture Gift Mission er mwyn rhoi Testamentau Newydd a Beiblau yn rhad ac am ddim i bobl. Ers dyddiau ei ieuenctid treuliai'r amser cyn brecwast yn astudio ac yn yr haf darllenai'r Beibl mewn lleoliad tawel yn yr ardd.

Ganwyd ef yn Wolverhampton. Fe'i prentisiwyd fel argraffydd a sefydlodd ei fusnes ei hun yn Birmingham. Roedd yn ymwybodol iawn bod y Beibl yn llyfr dieithr i ganran uchel o'r boblogaeth. Wrth agosau at ei ben blwydd yn ddeugain teimlai nad oedd wedi cyflawni'r nesaf peth i ddim dros achos yr Arglwydd. Daeth yn argyhoeddedig mai ei ddyletswydd ef oedd defnyddio ei waith a'i ddawn i gyrraedd pobl gyda gair Duw.

Ym 1885 penderfynodd fod yn rhaid iddo gamu ymlaen mewn ffydd. Gwerthodd ei fusnes argraffu llyfrau ac yn gwbl annisgwyl derbyniodd rodd ariannol tuag at y gwaith o ddosbarthu'r Ysgrythur. Symudodd i Lundain gan agor swyddfa yn Paternoster Row ger Cadeirlan St Paul. Dechreuodd ar ei waith mawr yn Chwefror 1888 o dan yr enw Scripture Text Mission er mwyn dosbarthu rhannau o'r Ysgrythur yn rhad ac am ddim. Yn fuan penderfynwyd newid yr enw i Scripture Gift Mission.

Arloesodd yn y defnydd o liw a lluniau mewn Beiblau. Roedd yn awyddus i wneud ei gyhoeddiadau mor ddeniadol â phosibl 'i'r llygad er mwyn ennill y galon'. Cafodd y syniad o greu lluniau a ddangosai olygfeydd o'r Dwyrain Canol. Llwyddodd i gael cymorth dau artist poblogaidd sef Henry Harper a James Clark.

Cynhaliodd y ddau ohonynt tra oeddent yn gweithio iddo ym Mhalesteina. Rhyngddynt cynhyrchwyd dros 200 o ddarluniau eglurhaol yn portreadu bywyd yn y Dwyrain. Yn ystod y tair blynedd gyntaf cyfyngodd ei waith i gyhoeddi copïau o'r pedair Efengyl yn Saesneg.

Ond gofynnodd ffermwr estrys, oedd â diddordeb mewn cenhadu ymhlith Mwslemiaid Gogledd Affrica, a fyddai'n ystyried cyhoeddi Efengyl Ioan mewn Arabeg. Gwnaeth hynny ac yn fuan ymddangosodd Efengyl Ioan yn Sbaeneg a Phortiwgaleg, Efengyl Luc yn Ffrangeg ac Efengyl Marc mewn Eidaleg. Yna daeth ceisiadau lu am gyhoeddiadau mewn amrywiol ieithoedd. Tyfodd y gwaith ac erbyn Rhagfyr 1895 roedd SGM wedi argraffu dros ddwy filiwn o gopïau o'r Efengylau.

Gosododd y busnes ar sylfaen gadarnach trwy ffurfio pwyllgor ymgynghorol. Cychwynnodd fisolyn sef *The Word of Life* er mwyn rhannu gwybodaeth am y gwaith. O'r dechrau dosbarthai rannau o'r Ysgrythur yn rhad ac am ddim. Codwyd arian ar y dechrau trwy apeliadau a hysbysebion ond newidiwyd y polisi yn ddiweddarach i weithredu trwy ffydd.

Ym 1899, ar ddechrau Rhyfel y Boer, argraffodd rifynnau arbennig yn dwyn y teitl *The Soldiers New Testament*. Pan ddaeth Edward VII i'r orsedd ym 1901 rhoddwyd fersiwn arbennig o Efengyl Marc i'r miloedd o bobl dlawd a aeth i ginio'r coroni.

Aeth William Walters ati i baratoi rhifyn arbennig o'r Beibl gyda lluniau. Yn hwn roedd 20 o luniau lliw a 72 o ysgythriadau sepia. Roedd y gwerthiant y tu hwnt i bob disgwyl. Ym Mai 1907 bu farw'n ddisymwth. Mewn cyfnod o ugain mlynedd llwyddodd y dyn rhyfeddol hwn i anfon deng miliwn cyfran o'r Ysgrythur mewn 22 o ieithoedd i 50 o wledydd. Defnyddiodd rym y wasg i ledaenu Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist.

Erbyn hyn y mae tua 17 miliwn o gyhoeddiadau yn cael eu hanfon am ddim i 20,000 o Gristnogion mewn 150 o wledydd. Fe'u hargreffir mewn 350 o ieithoedd. Mae SGM hefyd yn arloesi mewn argraffu darnau o'r Beibl mewn ieithoedd am y tro cyntaf.